



Home Office

DARPAR GOMISIYNYDD AR GYFER CAM-DRIN DOMESTIG

Pecyn Gwybodaeth Recriwtio

Ionawr 2019



Cynnwys

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref	3
Cefndir i'r Swydd	5
Disgrifiad Swydd	7
Manyleb Bersonol	10
Cyfarwyddiadau Ymateb	11
Y Broses Recriwtio	12
Telerau'r Penodiad	13
Atodiad A – Dogfennau Ategol (ynghlwm ar wahân)	-

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol



Mae cam-drin domestig yn drosedd frawychus. Mae'n troi perthynas a ddylai fod yn ffynhonnell lles yn ffynhonnell ofn a rheolaeth. Er 2010, rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i fynd i'r afael â gyrwyr cam-drin domestig, bodloni anghenion y dioddefwyr a goroeswyr, a sicrhau bod y sawl sy'n troseddu yn cael eu dwyn i gyfiawnder. Rydym wedi creu trosedd newydd o ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli, a chyflwyno gorchmynion atal trais domestig, i roi gwell opsiynau i bartneriaid cyfiawnder troseddol ar gyfer rheoli ymddygiad y sawl sy'n cyflawni troseddau peryglus.

Ond eto mae mwy i'w wneud o hyd. Yn y flwyddyn 2017/18 profodd amcangyfrif o ddwy filiwn o oedolion gam-drin domestig, er hynny nid yw'r rhan fwyaf fyth yn mynd at yr heddlu. Dyma pam ein bod ni'n cyflwyno Bil Cam-drin Domestig a phecyn o fesurau anneddfwriaethol sy'n gamau pwysig i weddnewid ein hymateb i'r troseddau ofnadwy hyn. Wrth galon y mesurau hyn y mae creu Comisiynydd Cam-drin Domestig newydd yng Nghymru a Lloegr. Bydd y Comisiynydd yn ein helpu ni i gyflawni dau nod allweddol. Bydd yn arwain sgwrs genedlaethol am gam-drin domestig, hyrwyddo agwedd o ddim goddefgarwch a sicrhau bod lleisiau dioddefwyr a goroeswyr – a rhai eu plant – yn cael eu clywed. A byddant yn ein helpu ni i gyflawni ein huchelgais i yrru trawsnewidiad gwirioneddol i'r ddarpariaeth gwasanaeth, darparu cefnogaeth i gomisiynwyr lleol fel bod yr holl ardaloedd yn codi i'r lefel orau.

Bydd y Bil, a fydd yn cael ei gyhoeddi fel drafft ar gyfer craffu cyn deddfu arno yn hwyrach yn ystod y sesiwn seneddol hon, yn gosod y Comisiynydd ar seiliau statudol a rhoi'r pŵer cyfreithiol iddo/iddi, ond credaf y gallwn gyflawni newid gwirioneddol cyn hynny. Er mwyn dechrau meithrin momentwm, rydym yn hysbysebu'r swydd yn awr, ar sail anstatudol. Bydd y Comisiynydd yn cynnig arweinyddiaeth gyhoeddus ar gam-drin domestig, a dadlau dros ddioddefwyr a goroeswyr. Byddant hefyd yn mapio cyflwr darpariaeth leol ar wasanaethau cam-drin domestig i dynnu sylw at lwyddiant a gyrru gwelliant, a chydabod annibyniaeth cyrff lleol i gynnig gwasanaethau wedi'u teilwra i anghenion eu cymunedau.

Rwy'n edrych am arweinydd neilltuol, a all gynnig arweinyddiaeth genedlaethol i'r cyhoedd, gwaith gyda phartneriaid, ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth ac, yn bwysicach, gwrando ar, a chyfathrebu, lleisiau dioddefwyr a goroeswyr. Dylech chi fod yn gallu creu sefydliad, ysbrydoli tîm a deall pwysigrwydd tystiolaeth gadarn wrth alluogi darparu gwasanaethau gwych.

Diolch am fynegi diddordeb yn y swydd hon. Byddwn yn eich annog chi i ymgeisio ac, os ydych chi'n llwyddiannus, edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i fynd i'r afael ag un o'r ffurfiau mwyaf llechwraidd ar droseddu a gwella bywydau nifer.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'S. Javid', with a small comma at the end.

Y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS
Ysgrifennydd Cartref
Rhagfyr 2018

Cefndir y Swydd

Er 2010, mae'r Llywodraeth wedi gwneud mynd i'r afael â cham-drin domestig yn flaenoriaeth lwyr. Mae cam-drin domestig yn effeithio ar fywydau bob dydd y dioddefwyr, nid oes modd dianc rhagddo ac fe all gael canlyniadau pontio'r cenedlaethau dinistriol ar blant. Eto i gyd mae'n parhau yn gudd ar y cyfan, gyda mwyafrif y rhai sy'n cyflawni'r troseddau byth yn cael eu hadrodd wrth yr heddlu, a llai ohonynt yn cael eu herlyn. Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig yn amrywio ar draws y wlad - gall dioddefwyr a goroeswyr wynebu loteri cod post, gyda'r siawns o dderbyn gwasanaethau gwych mewn rhai mannau, ond rhai annigonol mewn mannau eraill.

Amlinellodd yr ymgynghoriad cyhoeddus "Trawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig" (Mawrth – Mai 2018) nifer o gynigion i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Mae'r mesurau hyn yn cynrychioli cyfle unwaith mewn oes i drawsnewid ein hymdriniaeth tuag at gam-drin domestig, ac yn ganolog iddynt y mae cynllun i fodloni ymrwymiad ym maniffesto etholiadol y Ceidwadwyr 2017:

"creu comisiynydd cam-drin a thrais domestig yn gyfreithiol, i ddadlau dros ddiodefwyr a goroeswyr, monitro'r ymateb i drais a cham-drin domestig ac i ddal yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol i gyfrif."

Bydd y Comisiynydd yn ceisio sicrhau bod materion cam-drin domestig wrth galon dadl gyhoeddus, bod diodefwyr a goroeswyr a'u plant yn cael cyfle i godi eu lleisiau a'u bod yn derbyn darpariaeth gwasanaeth o ansawdd gyson, pa le bynnag y maen nhw'n byw. Gwyddom fod 68% o bobl a ymatebodd i adran berthnasol yr ymgynghoriad yn cefnogi ein cynigion ar gyfer cyflwyno comisiynydd, a bod llawer o sefydliadau yn y sector yn gweld y rôl yn gyfle allweddol i yrru'r ymateb yn lleol. Rydym wedi gwrandao ar ein rhanddeiliaid, ac mae'r disgrifiad swydd yn adlewyrchu llawer o'r sylwadau a wnaed mewn ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae ymdriniaeth y Llywodraeth tuag at gam-drin domestig wedi'i fframio bob amser o fewn ei Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched, a bydd yn parhau felly, gan adlewyrchu'r ffaith bod cam-drin domestig yn drosedd sy'n digwydd yn anghymesur yn erbyn menywod. Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod bod dynion hefyd yn ddiodefwyr cam-drin domestig, a bydd y Comisiynydd yn gweithredu er budd diodefwyr a goroeswyr benywaidd a gwrywaidd.

Amserlen

Rydym yn cynnig ymagwedd dau gam tuag at y swydd:

1. Byddwn yn creu swydd Darpar Gomisiynydd anstatudol yn awr, cyn i'r Bil Cam-drin Domestig roi sylfaen statudol i'r swydd. Bydd gan y Darpar Gomisiynydd holl rolau comisiynydd statudol, ond heb y pwerau a'r dyletswyddau cyfreithiol. Bydd Darpar Gomisiynydd yn caniatáu i ni gynnal momentwm, cyflawni newid gwirioneddol yn gynnar a phrofi'r rôl yn ymarferol, gan roi'r wybodaeth orau posibl i'r Senedd am y model a fyddai'n gweithio'n fwyaf effeithiol. Bydd y Darpar Gomisiynydd yn defnyddio'r cyfnod cyn-statudol i ddechrau ar y gwaith i recriwtio ei staff ac i feithrin perthnasau gyda rhanddeiliaid.
2. Unwaith – yn amodol ar gymeradwyaeth Seneddol – y daw'r Bil Cam-drin Domestig yn gyfraith, daw'r Comisiynydd yn swydd statudol. Byddai'r swydd yr un peth yn ei hanfod, ond byddai ganddi'r pwerau i:

- a. ofyn i gyrff cyhoeddus penodol¹ sy'n cyflenwi gwasanaethau cam-drin domestig i gydweithredu eg ef/hi, gan gynnwys trwy ddarparu gwybodaeth iddo ef/iddi hi; ac
- b. ofyn i'r gyrff hynny ymateb i unrhyw argymhellion y bydd ef/hi yn eu gwneud.

Os bydd y swydd statudol yn sylweddol debyg i'r un cyn-statudol, byddai'r person oedd wedi ymgymryd â'r swydd yn cael ei benodi yn awtomatig (yn amodol ar berfformiad boddhaol); os bydd yn sylweddol wahanol, byddai angen cynnal proses benodi cyhoeddus newydd i sicrhau mai'r unigolyn mwyaf cymwys i'r rôl sy'n ddeiliad swydd.

¹ Yn lleol, mae'r rhain yn cynnwys prif swyddogion yr Heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr, a chyrrff GIG ac awdurdodau lleol yn Lloegr. Yn genedlaethol, byddai'r llywodraeth ganolog yn cael ei chynnwys.

Disgrifiad Swydd

Teitl: Darpar Gomisiynydd Cam-drin Domestig

Yn rhoi adroddiad i: Ysgrifennydd Cartref

Hyd: Mae hwn yn benodiad tymor penodol am gyfnod o dair blynedd, yn amodol ar berfformiad boddhaol yn unol â rheolau penodiad cyhoeddus, ac yn amodol ar y Senedd yn ei dro yn cadarnhau'r gofyniad am gomisiynydd statudol gyda swyddogaeth debyg. (Gweler adran Cefndir am amgylchiadau lle na allai'r Darpar Gomisiynydd barhau fel comisiynydd statudol; bydd cymal torri yn y cytundeb i alluogi hyn.)

Taliad Cydnabyddiaeth: Cynigir y swydd hon ar sail rhan amser o ddau neu dri diwrnod yr wythnos ac fe'i telir ar gyfwerth â rhan amser o £108-£140,000 y flwyddyn o gyflog cyfwerth â llawn amser.

Lleoliad: Canol Llundain, ond gyda hyblygrwydd. Bydd y swydd yn cynnwys Cymru a Lloegr i gyd, felly disgwylir teithio rheolaidd.

Diben y Rôl:

Swydd hanfodol y Darpar Gomisiynydd fydd annog arfer da wrth atal ac adnabod cam-drin domestig, wrth atal, adnabod, ymchwilio ac erlyn troseddau sy'n cynnwys cam-drin domestig, ac wrth adnabod, a chynnig cefnogaeth i, ddiodefwrwr a goroeswyr cam-drin domestig a'u plant.

Bydd y Darpar Gomisiynydd yn cynnig arweinyddiaeth gyhoeddus ar gam-drin domestig, dadlau dros ddiodefwrwr a goroeswyr a'u plant. Bydd yn mapio ac yn monitro darpariaeth ar wasanaethau cam-drin domestig ar draws Cymru a Lloegr, a chyhoeddi'r canlyniadau. Wrth wneud hyn, bydd yn tynnu sylw at feysydd arfer gorau, tynnu sylw at ddarpariaeth gwasanaeth nad yw'n cyrraedd y safon ddisgwylidig a gwneud argymhellion i gyrrff cyhoeddus i wella eu darpariaeth gwasanaeth, gan hynny yrru gwelliannau i'r ymateb i gam-drin domestig ar draws Cymru a Lloegr. Bydd hefyd yn ymgymryd â swyddogaethau eraill a fyddai'n elwa o oruchwyliaeth genedlaethol drwyadl, annibynnol, er enghraifft trwy chwarae rôl allweddol yn y broses Adolygu Dynladdiadau Domestig, a thrwy oruchwyllo cydymffurfiaid â llawlyfr llysoedd Trais Domestig Arbenigol.

Cyfrifoldebau Allweddol:

A. ARWEINYDDIAETH

- Trwy waith gyda chyrrff cyhoeddus eraill, y cyfryngau a'r gymdeithas sifil, darparu arweinyddiaeth genedlaethol ar fynd i'r afael â cham-drin domestig, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion (megis cyffredinolrwydd cynyddol cam-drin sy'n digwydd ar-lein, trwy gamddefnydd ar dechnolegau a llwyfannau ar-lein). Gweithio i sicrhau bod lleisiau diodefwrwr a goroeswyr yn hysbysu'r ddadl gyhoeddus.

B. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

- Datblygu set o berthnasau gwaith adeiladol gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys diodefwrwr a goroeswyr cam-drin domestig, sefydliadau cymdeithas sifil ac unrhyw sefydliadau sy'n bodloni anghenion croestori'r rheini sy'n wynebu cam-drin, darparwyr gwasanaeth, adrannau Llywodraeth, Llywodraeth Cymru a'r cyfryngau. Bydd y deiliad swydd angen datblygu

perthynas effeithiol gyda'r Senedd ac mae'n debyg y bydd angen rhoi tystiolaeth i bwyllgorau seneddol. Bydd y Darpar Gomisiynydd yn adrodd wrth yr Ysgrifennydd Cartref, a bydd gofyn cwrdd yn rheolaidd ag ef a gyda gweinidogion eraill sy'n gyfrifol am faterion cam-drin domestig, gan gynnwys trwy bresenoldeb achlysurol mewn Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Drais yn erbyn Menywod a Merched ac yn y Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Gam-drin Domestig. Bydd gan y Darpar Gomisiynydd annibyniaeth gweithredu o ddydd i ddydd, ond bydd gofyn gweithio mewn partneriaeth gyda thîm nawdd y Swyddfa Gartref.

- Bydd angen i'r Darpar Gomisiynydd weithio'n arbennig o agos gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Plant Lloegr a Chynghorwyr Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Trais ar Sail Rhyw, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru. Bydd angen cael dealltwriaeth o'r setliad datganoledig ac o'r ymdriniaeth nodedig yng Nghymru i'r materion sy'n rhan o'i rôl ef/hi. Bydd y Darpar Gomisiynydd yn gweithio hefyd mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill pan fyddai hyn yn cyflenwi'r canlyniadau mwyaf effeithiol.

C. MAPIO DARPARIAETH GWASANAETH

- Datblygu methodoleg gadarn, deg ac o ansawdd uchel ar gyfer mapio'r ymateb i gam-drin domestig, ar sail (yn y lle cyntaf) Datganiad Cenedlaethol o Ddisgwyliadau Trais yn Erbyn Menywod a Merched² a Blaenoriaethau ar gyfer Gwasanaethau Cam-drin Domestig³. Defnyddir hyn i fapio gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau llywodraeth ganolog (e.e. adrannau, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi), awdurdodau lleol yn Lloegr, heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr, cyrff GIG yn Lloegr a chyrff cyhoeddus eraill megis sefydliadau addysgol – y cyfan gyda'r bwriad o ddeall disgwyliadau dioddefwyr a goroeswyr a'u plant. Dylai'r mapio adlewyrchu hyd a lled y gwasanaethau y mae dioddefwyr/goroeswyr (a dioddefwyr posibl) yn eu defnyddio ar hyn o bryd, yn enwedig sefydliadau trydydd sector arbenigol ac eraill nad yw comisiynwyr, o bosibl, yn gyfarwydd â hwy ar hyn o bryd. Bydd angen iddynt ystyried sut y mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi ataliaeth ac ymyrraeth gynnar, ynghyd â sut y maen nhw'n ymateb i ddigwyddiadau o gam-drin domestig.
- Cyflenwi'r rhaglen fapio a chyhoeddi'r canlyniadau, cynnal y gwaith mewn modd annibynnol a chyson, fel bod gan yr holl ddioddefwyr, goroeswyr ac eraill yr hyder yn ei ganlyniadau.
- Bod yn ystyriol o anghenion:
 - i gyrff lleol ddarparu gwasanaeth sy'n ymateb i anghenion penodol eu cymunedau; ac
 - isafu ar y gofynion gweinyddol ychwanegol ar gyrff lleol, gan ddefnyddio data cyfredol lle fo'n bosibl, gan weithio gyda phartneriaid a cheisio gwybodaeth yn y modd lleiaf beichus.

D. RHEOLAETH AC ATEBOLRWYDD

- Paratoi cynllun strategol blynyddol ac adroddiad blynyddol.
- Arwain tîm o staff, a fydd yn cefnogi'r Darpar Gomisiynydd yn ei ddyletswyddau/ei dyletswyddau. Bydd gan y Darpar Gomisiynydd yr hyblygrwydd i ystyried strwythur a galluoedd gorau ei swyddfa. Bydd gofyn iddo ef/hi sefydlu Bwrdd Cynghori yn cynnwys arbenigwyr a rhanddeiliaid perthnasol, a Grŵp Cynghori Dioddefwyr a Goroeswyr, yn cynnwys dioddefwyr a

²

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/574665/VAWG_National_Statement_of_Expectations_-_FINAL.PDF

³ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/565073/2016-18_Fund_for_Refuges_Specialist_Accommodation_Based_Support.pdf (Atodiad B)

goroeswyr - bydd y ddau gorff hyn yn cynnig cyngor arbenigol ac yn sicrhau bod y Darpar Gomisiynydd yn ymgymryd â'i swyddogaethau yn briodol.

- Rheoli'r gyllideb, a fydd yn cynnwys cyflogau staff a threuliau eraill. Sicrhau bod arian yn cael ei wario yn unol ag egwyddorion Trysorlys Ei Mawrhydi o gysondeb a phriodoldeb, a bod cyfrif cywir ohono. Bydd y Darpar Gomisiynydd yn gyfrifol am benderfynu sut y mae'r arian yn cael ei wario, a bydd yn cael ei ddal/ei dal yn gyfrifol gan yr Ysgrifennydd Cartref.

E. CYFRIFOLDEBAU PENODOL ERAILL

- Chwarae rôl allweddol yn y broses Adolygu Dynladdiadau Domestig.
- Goruchwyllo cydymffurfiad â'r llawlyfr llysoedd ar Drais Domestig Arbenigol.
- Ymgymryd ag asesiadau penodol o gomisiynwyr a chyrrff cyhoeddus, ynghyd ag asesiadau thematig cyffredinol, a chyhoeddi'r adroddiadau, a fyddai'n cynnwys argymhellion.
- Cyflenwi gwaith a chyngor penodol yn ôl y gofyn gan y Gweinidogion. Ymgymryd ag ymchwil penodol, astudiaethau ac ymholiadau a gomisiynir gan gyrff cyhoeddus eraill (ar gost y cyrrff hynny).
- Mabwysiadu ffocws penodol ar anghenion dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig o grwpiau lleiafrifol ac ymylol gydag anghenion penodol, megis dioddefwyr sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, LGBT, anabl, mudwyr, neu sydd ag anghenion cymhleth yn ymwneud ag, er enghraifft, iechyd meddwl neu gam-drin sylweddau. Dylai arweinydd thematig o fewn y swyddfa Darpar Gomisiynydd gael ei adnabod ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn, ynghyd ag unrhyw grwpiau ychwanegol y mae'r Darpar Gomisiynydd yn teimlo sy'n gwarantu sylw penodol.
- Bydd gofyn i'r Darpar Gomisiynydd ystyried effaith benodol cam-drin domestig ar blant (yn ddiodefwyr a thystion) a'r gwasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc, gan weithio'n agos gyda Chomisiynwyr Plant Cymru a Lloegr. Eto, dylid adnabod arweinydd thematig o fewn ei swyddfa.
- Ni fydd y Darpar Gomisiynydd yn gweithredu mewn perthynas ag achosion unigol, er fe allai ef/hi ddefnyddio gwersi o achos unigol i hysbysu ei waith/ei gwaith ar fater cyffredinol. Ni fydd y Darpar Gomisiynydd yn comisiynu, yn darparu nac yn ariannu gwasanaethau, sy'n parhau yn gyfrifoldeb ar y comisiynwyr lleol (e.e. Comisiynwyr Heddlu a Throsedd).

Gallai cyfrifoldebau'r Darpar Gomisiynydd gael eu diwygio o bryd i'w gilydd yn ystod hynt y penodiad, yn benodol o ganlyniad i graffu cyn-deddfwriaethol o'r Bil Cam-drin Domestig drafft, ac yng ngoleuni unrhyw newidiadau i'r rôl sy'n deillio o daith seneddol ddilynol y Bil.

Manyleb Bersonol

Mae'n hanfodol eich bod chi'n nodi yn eich datganiad ategol dystiolaeth ac enghreifftiau penodol yn erbyn pob un o'r meini prawf dethol yn Rhan Un y fanyleb bersonol, hyd y gallwch chi. Bydd yr ymatebion hyn yn cael eu datblygu a'u harchwilio ymhellach gyda'r ymgeiswyr hynny a wahoddir am gyfweiliad, ynghyd â'r meini prawf eraill a restrir yn Rhan Dau.

RHAN UN: MEINI PRAWF HANFODOL

Sgiliau a Phrofiad

- Profiad o arweinyddiaeth strategol ar lefelau uwch Cymdeithas Sifil, Llywodraeth, Gorfodi'r Gyfraith, Sector Preifat, Sector Cyhoeddus neu Academia.
- Sgiliau cyfathrebu, trafod a rhyngbersonol cryf i feithrin perthnasau gwaith effeithiol gyda Gweinidogion, perchnogion polisi, adrannau Llywodraeth, y cyfryngau, a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys y sector cyhoeddus ehangach, cymdeithas sifil, a'r cyhoedd.
- Gallu i feithrin a thyfu sefydliad.
- Gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill.
- Dealltwriaeth glir o rôl dadansoddiad ar sail tystiolaeth wrth hysbysu gwaith cyrff cyhoeddus ym maes gwleidyddol a sylw cyhoeddus a sensitifrwydd.
- Profiad cryf o reoli a llywodraethu ariannol a phobl.
- Y gallu i ddarparu cyngor annibynnol, cadarn, o dan lefel uchel o ddiddordeb a chraffu gan y cyhoedd, gan drafod rhwng barnau sy'n gwrthdaro a chynhyrchu opsiynau sy'n dod i gonsensws.

RHAN DAU: GWYBODAETH, SGILIAU A GALLUOEDD

Dylech chi hefyd fod yn gallu dangos:

- Profiad neu wybodaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.
- Y gallu i fod yn arweinydd uchel eich parch, credadwy a hyderus, gyda'r gallu i arwain byrddau a sefydliadau effeithiol i gyflenwi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Hygrededd gyda llywodraeth, cymdeithas sifil a'r cyhoedd.

Dylai'r Darpar Gomisiynydd weithredu er lles y cyhoedd bob amser, yn hytrach nac er budd unrhyw sefydliad neu grŵp diddordeb penodol. Dylai ef/hi arddangos yn gyson y lefelau uchaf o gyfanrwydd personol, yn unol â'r 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.

Diwydrwydd Dyladwy: Sylwer fel rhan o'r broses recriwtio, bydd diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys gwiriadau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cynnal ar ymgeiswyr ar y rhestr fer.

Cyfarwyddiadau Ymateb

Os dymunwch chi ymgeisio am y swydd hon, anfonwch yr isod **erbyn 23:00 ar 27 Ionawr 2019**:

- **CV cynhwysfawr** yn amlinellu hanes eich gyrfa ac yn cynnwys manylion unrhyw gymwysterau proffesiynol.
- **Datganiad ategol byr** (uchafswm dwy ochr A4, ffont 11 o leiaf) yn rhoi tystiolaeth o gryfder a dyfnder eich gallu i fodloni meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl. Rhwng enghreifftiau penodol i ddangos sut yr ydych chi'n bodloni pob un o'r meysydd profiad, rhinweddau a sgiliau a nodir yn y fanyleb bersonol.
- Yn ychwanegol, llenwch a dychwelyd trwy e-bost y ffurflen yn **Atodiad A**, yn ymwneud â chanolwyr, amrywiaeth, cenedligrwydd, gweithgaredd gwleidyddol a gwrthdaro buddiannau.

Dylai'r ceisiadau wedi'u llenwi gael eu hanfon trwy e-bost at publicappointments@homeoffice.gov.uk

Os na allwch chi ymgeisio ar-lein, anfonwch geisiadau at:

Public Appointments Team
Home Office
2 Marsham Street
First Floor, Peel Building
London
SW1P 4DF

Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau ein bod ni'n derbyn eich cais erbyn y dyddiad cau.

Rhagor o Wybodaeth

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am unrhyw agwedd ar y rôl, neu eisiau trafodaeth anffurfiol yn unig, yna cysylltwch ag Emily Fei ar 0207 035 5849 neu Emily.Fei@homeoffice.gov.uk

Os yw'ch ymholiad yn perthyn i broses penodiadau cyhoeddus yna cysylltwch â Will Nixon yn y Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn y lle cyntaf 0207 035 5987.

Cynllun Mynediad Cyfweliad i Bobl Anabl

Fel aelod o'r Fforwm Cyflogwyr ar Anabledd, rydym yn ymrwymedig i ymroi i annog ceisiadau gan bobl gydag anableddau. Mae ymgeiswyr ag anabledd yn cael gwarant cyfweliad os ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y penodiad, fel yr amlinellir yn y disgrifiad swydd perthnasol. Eich penderfyniad chi yw datgan anabledd at ddibenion sicrhau cyfweliad ac mae'n gwbl wirfoddol. Os dymunwch ymgeisio o dan y Cynllun Mynediad Cyfweliad, llenwch Ran D y ffurflen yn **Atodiad A**.

P'un a fyddwch chi'n dewis ymgeisio o dan y Cynllun Mynediad Cyfweliad ai peidio gallwch chi ofyn i ni wneud trefniadau penodol i chi wrth fynychu cyfweliad. Gallwch hefyd gysylltu â ni os dymunwch drafod y meini prawf ar gyfer y swydd neu os oes gennych gwestiynau yn ymwneud â'ch cais.

Croesawn geisiadau gan siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

Y Broses Recriwtio

Amserlen Fyngol

Sylwer y gallai'r dyddiadau hyn fod yn amodol ar newid. Rhowch wybod yn eich llythyr ymgeisio os nad ydych chi ar gael i'ch cyfweld ar y dyddiad isod.

Dyddiad Cau	7 Ionawr 2019 (23:00)
Cyfarfod Rhestr hir	13 Chwefror 2019
Cyfweld â'r Ymgeiswyr	w/c 18 Mawrth 2019

Proses Recriwtio

Mae'r swydd hon yn cael ei chystadlu yn unol â Chod Penodiadau Cyhoeddus Llywodraethu Swyddfa'r Cabinet (Rhagfyr 2016)⁴, sy'n amlinellu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer prosesau penodiadau cyhoeddus. Mae'r Cod wedi'i seilio ar dair egwyddor graidd: teilyngdod, didwylledd a thegwch.

Bydd Panel Asesu Cynghorol (AAP) yn hidlo'r ceisiadau, gan asesu pob cais yn erbyn meini prawf hanfodol, i gynhyrchu rhestr fer. Yn amodol ar gytundeb Gweinidogol, byddan nhw wedyn yn cynnal cyfweiliadau i ganfod pa ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi i'r swydd. Bydd yr AAP yn cael ei gadeirio gan Colleen Harris (Uwch Aelod Panel Annibynnol), a'i rôl fydd sicrhau bod y penodiad yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrrff Cyhoeddus. Yn ychwanegol, bydd y panel yn cynnwys Cecilia French (Cyfarwyddwr Diogelu'r Cyhoedd y Swyddfa Gartref), Frank Mullane (Prif Weithredwr Eiriolaeth ar Ôl Cam-drin Domestig Angheuol), a Samantha Rennie (Cyfarwyddwr Gweithredol Rosa).

Byddwn yn cydnabod eich cais ac yn rhoi'r diweddaraf i chi ar gynnydd y gystadleuaeth.

Disgwylir cynnal cyfweiliadau yng nghanol Llundain. Bydd manylion pellach ar y fformat yn cael eu darparu i'r rhai sy'n cael eu cyfweld o flaen llaw.

Gorwedd y penderfyniad i benodi i'r swydd hon gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Gallai ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi gael eu gwahodd i gwrdd ag ef, neu gyda Gweinidog arall, cyn y gwneir penderfyniad terfynol. O ganlyniad, efallai y bydd oedi wrth hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad y gystadleuaeth.

Sylwer: Ni fydd treuliau yr eir iddynt gan ymgeiswyr yn ystod y broses recriwtio yn cael eu had-dalu ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol a dim ond gyda chytundeb blaenorol Tîm Penodiadau Cyhoeddus y Swyddfa Gartref.

4

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf

Telerau'r Penodiad

Natur y Penodiad: Nid ydych chi'n weithiwr i'r Swyddfa Gartref. Yn unol â hynny, ni fydd unrhyw beth yn y ddogfen hon yn cael ei ddehongli, neu yn cael ei gymryd i greu, cytundeb cyflogaeth rhyngoch chi a'r Adran neu Lywodraeth Ei Mawrhydi.

Tymor Penodi: Bydd eich penodiad am gyfnod penodol o dair blynedd, yn amodol ar berfformiad boddhaol ac i'r Senedd yn ei bryd yn cadarnhau'r angen am gomisiynydd statudol gyda rôl debyg (gweler "Cefndir i'r rôl"). Mae posibilrwydd o ail-benodi ar ôl cyfnod o dair blynedd.

Tâl Cydnabyddiaeth ac Ymrwymiad Amser:

- Ymrwymiad amser disgwylidig y rôl yw dau neu dri diwrnod yr wythnos.
- Bydd tâl cydnabyddiaeth yn gyfwerth â rhan amser o £108-£140,000 y flwyddyn o gyflog cyfwerth â llawn amser. Bydd hyn yn drethadwy trwy gyflogres y Swyddfa Gartref, ond nid yw'r penodiad yn bensiynadwy.
- Gall y deiliad swydd hawlio ad-daliad o gostau teithio a chynhaliath resymol angenrheidiol yr eir iddynt yn ystod hynt ei ddyletswyddau, ar gyfraddau a osodir yn ganolog.
- Dylai ymgeiswyr nodi na ellir ad-dalu'r ymgeisydd llwyddiannus am y rôl hwn os yw'n cael ei dalu/ei thalu am rôl llawn amser cyfredol o'r pwrw cyhoeddus.

Lleoliad: Bydd y Darpar Gomisiynydd wedi'i leoli yn y lle cyntaf yng Nghanol Llundain, er byddai hyblygrwydd yn yr arfer, gan y byddwch chi'n derbyn gliniadur. Gan fod y swydd hon yn cynnwys Cymru a Lloegr gyfan, bydd gofyn i chi ymgymryd â theithio perthnasol.

Treuliau: Bydd treuliau teithio a chynhaliath yn cael eu talu yn unol ag ymgymryd â'ch dyletswyddau fel Darpar Gomisiynydd, yn unol â pholisi'r Swyddfa Gartref. Ni ad-delir am deithio o'r cartref i'r swyddfa.

Cliriad diogelwch: Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu neu'n barod i sicrhau cliriad diogelwch i lefel Gwiriad Diogelwch (SC) a fetio gan yr Heddlu. Bydd gwiriadau cyn-benodi yn cael eu cynnal ar fewnfudo a cholffarnau troseddol. Fel arfer fe gymer hi rhwng pedair a phum wythnos i sicrhau'r cliriad diogelwch. Bydd y swydd yn cael ei chynnig ar sail amodol hyd nes y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi pasio'r holl wiriadau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei annog i ddechrau ar y penodiad hwn cyn gynted â phosibl, yn amodol ar gwblhau'r holl wiriadau cyn-benodi'n llwyddiannus.

Cenedligrwydd: Nid yw hon yn swydd ar gadw felly mae'n agored i Wladolion y DU, Gwladolion Prydeinig Dramor, Unigolion dan Amddiffyniad Prydain a Dinasyddion y Gymanwlad, Gwladolion AEE o aelod-wladwriaethau eraill a rhai aelodau teulu nad ydynt yn AEE a Gwladolion Swisaidd o dan Gytundeb Undeb Ewropeaidd Swistir. Mae'n rhaid nad oes unrhyw gyfyngiad cyflogaeth na chyfyngiad amser ar eich caniatâd i aros yn y DU. Er mwyn cadarnhau eich cymhwyster am y swydd hon, llenwch y ffurflen Genedligrwydd sydd yn **Atodiad A**. Ni ofynnir i chi ddangos y dystiolaeth a nodir yn ystod y cyfnod ymgeisio ond bydd gofyn i chi wneud hynny pe baech yn cael eich gwahodd i'r cyfweliad panel terfynol.

Cyfrinachedd: Byddwch chi'n amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol a bydd gofyn i chi fod yn ofalus wrth ddefnyddio gwybodaeth swyddogol y byddwch yn ei chlywed yn ystod dyletswyddau swyddogol, a pheidio â datgelu gwybodaeth sy'n cael ei chadw'n gyfrinachol.

Gwaharddiad rhag penodiad: O dan rai amgylchiadau, ni fydd unigolyn yn cael ei ystyried i'w benodi. Yn eu plith y mae:

- pobl sydd wedi derbyn dedfryd carchar neu ddedfryd ohiriedig o dri mis neu'n fwy yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf;
- pobl sy'n amodol ar orchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn dros dro;
- o dan rai amgylchiadau, rheini y mae tymor penodiad blaenorol wedi'i derfynu;
- unrhyw un sydd o dan orchymyn anghymwyso o dan y Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmni 1986, neu Ran 2 Gorchymyn Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 1989;
- unrhyw un sydd wedi gwneud taliad o dan orchymyn gweinyddu llys sirol;
- unrhyw un sy'n amodol ar orchymyn o dan y Ddeddf Ansolfedd 1986; ac
- unrhyw un sydd wedi'u tynnu o ymddiriedolaeth elusen.

Mae cyngor pellach am waharddiad rhag penodiad i'w cael trwy gysylltu â Thîm Penodiadau Cyhoeddus ar publicappointments@homeoffice.gov.uk

Gwrthdaro buddiannau: Dylech nodi yn benodol y gofyniad i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n codi yn ystod hynt eich gwaith fel Darpar Gomisiynydd a'r angen i ddatgan unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, safleoedd o awdurdod neu gysylltiadau gyda sefydliadau ac unigolion sy'n berthnasol i'r gwaith hwnnw. Bydd disgwyl i chi lenwi cofrestr o fuddiannau aelodau. Bydd y gofrestr hon yn cael ei chyhoeddi trwy wefan y Comisiynydd ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus ac fe'i diweddarir yn flynyddol yn ystod tymor y swydd.

Gweithgaredd Gwleidyddol: Disgwylir i chi beidio â bod mewn swydd plaid wleidyddol gyflogedig neu swyddi proffil uchel neu arbennig o sensitif o fewn plaid wleidyddol yn ystod eich penodiad fel Darpar Gomisiynydd. Yn amodol ar yr uchod, rydych chi'n rhydd i ymgysylltu â gweithgareddau gwleidyddol cyhyd â'ch bod chi'n ymwybodol o'ch cyfrifoldebau cyhoeddus cyffredinol ac yn defnyddio disgresiwn cywir, yn enwedig o ran eich gwaith fel Darpar Gomisiynydd.

Bydd gofyn i chi lenwi Datganiad Gweithgaredd Gwleidyddol fel rhan o'ch cais (**Atodiad A**), a fydd yn cael ei gadw ar wahân i'ch cais a bydd ond yn cael ei weld gan y Panel cyn y cyfweiliad. Gallai'r Panel yn ystod y cam hwnnw archwilio gyda chi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Derbynnir y gallai'r gweithgareddau gwleidyddol fod wedi rhoi sgiliau perthnasol i chi, gan gynnwys profiad trwy waith pwyllgor, gwneud penderfyniadau ar y cyd, datrys gwrthdaro a siarad cyhoeddus. Felly, os oes gennych brofiad o'r fath a'ch bod chi'n ei ystyried yn berthnasol i'ch cais am y swydd hon, fe allech chi, os ydych chi'n dymuno gwneud hynny, ei gynnwys ar wahân ym mhrif gorff eich cais.

Diogelu Data: Mae'r Swyddfa Gartref yn cymryd ei rhwymedigaethau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data o ddifri. Bydd unrhyw ddata amdano chi yn cael ei gadw o dan amodau diogel gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rheini sydd ei angen mewn cysylltiad â delio â'ch cais a'r broses ddethol.

Mae ein polisi diogelu data yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data. Gellir cysylltu â'n swyddog diogelu data trwy ysgrifennu at dpo@homeoffice.gov.uk

Mewn cysylltiad â'n cais, byddwn yn casglu, yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych chi yn eich CV, datganiad ategol, ffurflenni yn Atodiad A a'ch cyfweiliad (os yw'n berthnasol). Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth gan ganolwyr a enwir yn eich cais.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu'ch addasrwydd ar gyfer y swydd hon. Byddwn yn ei chadw am ddwy flynedd, oni bai eich bod chi'n rhoi caniatâd i ni gadw'ch CV a manylion cyswllt at ddibenion eich hysbysu chi o unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol.

Monitro Cyfle Cyfartal: Fel rhan o'r broses ymgeisio, gofynnwn i ymgeiswyr lenwi gwybodaeth fonitro cyfle cyfartal (gweler ffurflen **Atodiad A**). Bydd hyn yn ein helpu ni i fonitro penderfyniadau dethol i asesu a yw cyfle cyfartal yn cael ei gyflawni ac i'n galluogi ni i gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych chi ar y ffurflen hon yn ddiennw, yn cael ei thrin yn gyfrinachol, a'i defnyddio gan y Swyddfa Gartref at ddibenion ystadegol yn unig. Bydd yn cael ei chadw am ddwy flynedd. Bydd data amrywiaeth diennw ar benodiadau cyhoeddus a'r rhai sydd wedi'u penodi hefyd yn cael ei rannu gyda Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus at ddibenion archwilio gweithdrefnau ac arferion penodiadau cyhoeddus ac i sicrhau cydymffurfiaid â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Defnyddir y ffurflen monitro cyfle cyfartal ar gyfer monitro'r broses ddethol yn unig. Ni fydd y ffurflen yn cael ei thrin fel rhan o'ch cais ac ni fydd yn cael ei rhannu gyda'r panel ddethol. Os nad ydych chi'n dymuno cael y manylion hyn wedi'u cofnodi, dychwelwch y ffurflen heb ei llenwi.

Cwynion: Os nad ydych chi'n gwbl fodlon â'r ffordd y mae'ch cais yn cael ei drin ar unrhyw gam yn y gystadleuaeth, codwch unrhyw gŵyn yn y lle cyntaf gyda:

Will Nixon
Public Appointments Team
Home Office
Ground Floor, Seacole Building
2 Marsham Street
London, SW1P 4DF